Senedd Cymru / Welsh Parliament
**Swyddfa Breifat y Llywydd / Llywydd's Private Office**

# Cawcws Menywod y Senedd

## Adroddiad Blynyddol 2023-2024

Hydref 2024

Lansiwyd Cawcws Menywod y Senedd yn swyddogol ym mis Mehefin 2023, ac mae'n cael gadeirio gan Joyce Watson AS. Mae grŵp llywio ar gyfer y Cawcws yn cynnwys cynrychiolwyr o bob grŵp. Mae pob Aelod o'r Senedd sy'n fenyw yn aelodau o'r Cawcws yn ddiofyn, a darperir cymorth ysgrifenyddol gan Swyddfa Breifat y Llywydd, lle bo'n briodol.

Yn ei flwyddyn gyntaf, mae Aelodau'r Cawcws wedi cyfrannu at ddigwyddiadau proffil uchel ac eang ar ystâd y Senedd a thu hwnt, i gyd fel rhan o'i genhadaeth i hybu a chefnogi cyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth. Mae gwaith y Cawcws hefyd yn cysylltu â Busnes y Senedd, o gyfraniadau i ymchwiliadau Pwyllgor, i Aelodau yn myfyrio ar eu profiadau gyda'r Cawcws mewn sesiynau'r Cyfarfod Llawn a Phwyllgorau. Mae'r Cawcws wedi meithrin cysylltiadau rhyngwladol newydd, cynnig gofod ar gyfer cefnogaeth, ac wedi sefydlu ei hun yn gyflym fel fforwm uchel ei barch ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu ag Aelodau benywaidd o'r Senedd. Mae blwyddyn gyntaf Cawcws Menywod y Senedd wedi bod yn un hynod gynhyrchiol, ac mae hyn o ganlyniad i ymrwymiad personol ei aelodau.

Wrth gael ei sefydlu, cytunodd y Cawcws ar gylch gorchwyl, gweledigaeth a chenhadaeth a fyddai'n llywio ei waith yn y dyfodol. Mae'r Cawcws hefyd wedi lansio tudalen we sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn rhannu adnoddau sy'n gysylltiedig â'i waith.

## Ein gweledigaeth

Cymru sy’n gyfartal o ran y rhywiau ac yn gwbl gynhwysol, lle:

▪ mae pawb yn cael eu grymuso i ymgysylltu â gwleidyddiaeth (fel dinasyddion ac fel cynrychiolwyr etholedig) waeth beth fo'u rhywedd a’u nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys statws economaidd-gymdeithasol, ac

▪ mae polisïau, cyfreithiau, rhaglenni a chyllidebau wedi'u cynllunio i fod yn sensitif i anghenion a phrofiadau amrywiol y boblogaeth.

## Ein cenhadaeth

Dod ag Aelodau benywaidd o’r Senedd at ei gilydd o bob plaid wleidyddol er mwyn:

▪ gweithio'n bwrpasol i hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth a nodi'r rhwystrau presennol o fewn ein system seneddol.

▪ datblygu a hyrwyddo polisi ac ymarfer sy'n mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar ein seneddwyr benywaidd a’n cymdeithas.

▪ bwrw ymlaen ag agenda’r Cawcws y cytunwyd arni o fewn pleidiau gwleidyddol a meysydd dylanwad eraill y Senedd.

# Cynnwys

Cyfarfodydd, Llywodraethu a Chefnogaeth ........ 4
Lansiad Swyddogol ........ 4
Lle i Ni ........ 5
Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ........ 6
Tystiolaeth i'r Pwyllgor Biliau Diwygio ........ 7
Ymgysylltu Rhyngwladol (Rhwydweithiau ac Ymweliadau Mewnol) ........ 8
Edrych tua'r dyfodol ........ 10

## Cyfarfodydd, Llywodraethu a Chefnogaeth

**1.** Mae'r Cawcws yn cael ei gadeirio gan Joyce Watson AS a grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r grwpiau gwleidyddol. Dewiswyd y grŵp llywio hwn o blith aelodau sydd eisoes yn ymwneud â rhwydwaith seneddol arall o fenywod, Seneddwragedd y Gymanwlad.

**2.** Yn ei gylch gorchwyl, ymrwymodd y Cawcws i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fyfyrio ar ei weithgareddau. Yn ogystal â chymryd rhan mewn digwyddiadau ac ymweliadau, mae'r Cawcws hefyd yn cyfarfod yn breifat i ddarparu cefnogaeth cymheiriaid ac i rannu'r newyddion diweddaraf a chyfleoedd sy'n codi. Mae ymrwymiad personol yr Aelodau i'r Cawcws wedi sicrhau bod lefel dda o bresenoldeb yn y cyfarfodydd a digwyddiadau a'u bod yn cael eu cefnogi ar draws y pleidiau gwleidyddol.

**3.** Rhoddir cefnogaeth ysgrifenyddol gan Swyddfa Breifat y Llywydd, fodd bynnag, ar weithgareddau sy'n canolbwyntio mwy ar elfennau gwleidyddol neu bolisi (fel darparu tystiolaeth i Bwyllgorau) mae'r Cadeirydd ac aelodau eraill wedi cael cefnogaeth gan eu grwpiau.

**4.** Mae'r ysgrifenyddiaeth, yn ogystal â dod â'r Cawcws at ei gilydd ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, yn coladu ac yn dosbarthu cyfleoedd ac adnoddau i'r Cawcws gan gynnwys adnoddau dysgu, llenyddiaeth berthnasol, a chyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Lansiad Swyddogol

**5.** Lansiwyd Cawcws Menywod y Senedd ar 7 Mehefin 2023 mewn digwyddiad yn y Senedd.

**6.** Roedd y digwyddiad yn archwilio rôl seneddau wrth annog cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn cymdeithas, profiadau seneddwyr benywaidd, a sut mae dinasyddion benywaidd yn ymgysylltu â gwaith seneddau.

**7.** Clywodd y rhai a oedd yn bresennol, gan gynnwys aelodau'r cawcws a rhai o'i randdeiliaid allweddol, gan Gadeirydd y Cawcws, Joyce Watson AS, a'r Llywydd, Elin Jones AS, a siaradodd am eu profiadau mewn bywyd etholedig ac yn y swyddi amrywiol y maent wedi'u gwneud drwy gydol eu gyrfaoedd gwleidyddol.

**8.** Yna croesawodd y Cawcws y Seneddwr Fiona O'Loughlin, Cadeirydd Cawcws Menywod Iwerddon yn yr Oireachtas, a draddododd araith ysbrydoledig, gan rannu profiadau o Gawcws Seneddol Menywod Iwerddon. Lansiwyd Cawcws Menywod Iwerddon yn 2017, a chyfeiriodd y Seneddwr O'Loughlin at y profiad

hwn i roi cyngor defnyddiol am ymrwymiadau gwleidyddol a'r cymorth sydd ar gael i gawcysau menywod.

**9.** Mae Cawcws Menywod y Senedd yn edrych ymlaen at ddysgu mwy a pharhau â'r berthynas hon rhwng ein seneddau a chawcysau.



## Lle i Ni

**10.** Roedd y Cawcws Menywod yn falch o gefnogi digwyddiad arbennig yn y Senedd ar 21 Hydref 2023. Cynlluniwyd y digwyddiad, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â WEN Cymru ac Elect Her, i gysylltu ac ysgogi'r genhedlaeth nesaf o fenywod mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru.

**11.** Cynhaliwyd sesiwn ysbrydoledig yn Siambr y Senedd, lle clywodd y rhai a oedd yn bresennol gan siaradwyr fel Joyce Watson AS, Jane Hutt AS, a'r Cynghorydd Sara Pickard. Bu Sioned Williams AS a Hannah Blythyn AS, sy'n aelodau o'r Cawcus, yn cymryd rhan hefyd mewn trafodaeth gyda Fatmanur Aksoy (Senedd Ieuenctid Cymru), y Cynghorydd Dr Bablin Molik, a Fay Jones AS am eu profiadau bywyd a'u teithiau i fyd gwleidyddiaeth.

**12.** Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys gweithdai ar ymgyrchu, cymryd y camau cyntaf ym myd gwleidyddiaeth, a hunaniaeth a phrofiadau mewn bywyd cyhoeddus. Drwy gydol y dydd, cyfrannodd Aelodau'r Cawcws at sesiynau, gan gyfarfod â menywod o bob rhan o Gymru ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd gwleidyddol.






## Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

**13.** I nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2024, cynhaliodd y Senedd fore o weithgareddau ar gyfer ysgolion lleol, yn canolbwyntio ar y thema #YsbrydoliCynhwysiant. Roedd y rhaglen yn cynnwys:

- Trafodaeth banel dan arweiniad Jess Hope Clayton gyda Jess Davies, Molly Fenton, a Taylor Edmonds
- Digwyddiad bord gron gyda Chawcws Menywod y Senedd
- Adborth a rhwydweithio
- Teithiau o amgylch y Senedd a chyfleoedd i wylio’r Cyfarfod Llawn

**14.** Fel rhan o'r rhaglen, cymerodd aelodau o'r Cawcws Menywod ran mewn trafodaethau bord gron gyda myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Fitzalan, Ysgol

Uwchradd Gorllewin Caerdydd, Ysgol Gwent Is-Coed, Cantonian, Bro Edern, ac Ysgol Plasmawr. Tynnodd y trafodaethau hyn sylw at y cysylltiadau rhwng pwysigrwydd cydraddoldeb rhywiol, cynrychiolaeth ddemocrataidd ehangach a gwaith y Senedd, yn ogystal ag annog myfyrwyr i feddwl am ffyrdd y gallant ysbrydoli newid yn eu hysgolion a'u cymunedau ehangach.

**15.** Gwahoddwyd yr holl Aelodau o'r Senedd i glywed adborth o weithgareddau'r bore, a chyfeiriodd rhai o'r Aelodau hynny a gymerodd ran yn y cyfarfodydd bord gron at y digwyddiad yn eu cyfraniadau yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Mawrth, fel rhan o ddatganiad y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod.



## Tystiolaeth i'r Pwyllgor Biliau Diwygio

**16.** Ym mis Ebrill 2024, gwahoddwyd y Cawcws Menywod gan Bwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd i roi tystiolaeth fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

**17.** Cynrychiolodd Joyce Watson AS, Rhianon Passmore AS, Sioned Williams AS, a Janet Finch-Saunders AS y Cawcws a rhoi eu barn ar systemau cwota rhywedd, y gwahanol fodelau dan sylw, ac arferion da o ran annog menywod i gymryd rhan ym myd gwleidyddiaeth etholedig.

**18.** Ers hynny mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi ei adroddiad cyfnod 1 ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, a wnaeth 25 o argymhellion, a chynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf 2024.

**19.** Yn ei ragair i'r adroddiad, dywedodd David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor:

*"Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor wedi'u darbwyllo gan y dystiolaeth ryngwladol ac academaidd fod cwotâu deddfwriaethol yn fecanwaith effeithiol ar gyfer cynyddu lefelau cynrychiolaeth menywod mewn seneddau, ac felly'n cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod na all y Bil warantu cydraddoldeb, ac y bydd angen ymrwymiad gan bleidiau gwleidyddol i osod menywod mewn safleoedd y gellir eu hennill ar restrau mewn seddi y gellir eu hennill. Rhaid rhoi camau anneddfwriaethol eraill ar waith hefyd, i gyd-fynd â'r Bil, i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae menywod yn aml yn eu hwynebu wrth geisio cael eu dethol a'u hethol i'r Senedd."*

**20.** Y sefyllfa ym mis Medi 2024 yw bod Llywodraeth Cymru tynnu'r Bil Ymgeiswyr Etholiadol yn ôl. Mae'r Cawcws yn bwriadu ymgysylltu ymhellach â'r Llywodraeth i ddeall y camau sy'n cael eu cymryd i annog amrywiaeth a gwell cynrychiolaeth gan fenywod yn etholiad 2026.

## Ymgysylltu Rhyngwladol (Rhwydweithiau ac Ymweliadau Mewnol)

**21.** Eleni, mae aelodau'r Cawcws wedi ymgysylltu'n benodol â rhwydweithiau a dirprwyaethau rhyngwladol, gan rannu eu profiadau personol eu hunain, gwersi o'r Senedd ac o Gymru, yn ogystal â dysgu o brofiadau rhyngwladol ac arferion gorau.

**22.** Mae tri aelod o'r Cawcws yn parhau i fod ar Bwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad ar gyfer Rhanbarth Ynysoedd Prydain, Iwerddon a Môr y Canoldir. Mae Natasha Asghar AS, Delyth Jewell AS, a Rhianon Passmore AS yn cynrychioli'r Senedd ar y Pwyllgor Llywio, ac yn cyfrannu'n rheolaidd gyda diweddariadau gan y Senedd a Chymru ar faterion sy'n ymwneud â rhywedd, yn ogystal â chyfrannu at raglen waith barhaus y Rhanbarth. Daeth cyfnod Rhianon Passmore AS fel is-gadeirydd y Rhanbarth i ben ym mis Gorffennaf 2023, ac mae'r cawcws yn ddiolchgar am ei chyfraniad i'r rhwydwaith.

**23.** Rhoddodd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad gyfle arall hefyd i Aelodau'r Cawcws rwydweithio'n rhyngwladol, gyda'r Senedd yn anfon dau gynrychiolydd i Gynhadledd y Rhanbarth ym mis Mawrth 2024. Cynhaliwyd y Gynhadledd yn Valetta, Malta rhwng 6 a 8 Mawrth, a chynrychiolwyd y Senedd eleni gan Janet Finch-Saunders AS a Rhianon Passmore AS.

**24.** Clywodd y gynhadledd gan aelodau etholedig ar draws y Gymanwlad, gan gynnwys cyfraniadau personol iawn gan gydweithwyr a fu'n myfyrio ar eu profiadau o gam-drin ar-lein, eu profiadau o ran cyrraedd byd gwleidyddiaeth etholedig ac, yn achos Malta, eu profiadau o gydbwyso gyrfaoedd gwleidyddol rhan-amser â bywyd teulu a bywyd proffesiynol.

**25.** Cyflwynodd cydweithwyr o Malta hefyd drafodaeth ddiddorol ar y mecanweithiau cwota rhywedd sydd ar waith ar hyn o bryd, gyda chyfraniadau gan Helena Dalli, y Comisiynydd Ewropeaidd presennol dros Gydraddoldeb ac un o ddylunwyr system cwota rhywedd Malta, ac Eve Borg Bonello AS, un o aelodau ieuengaf Senedd Malta a etholwyd o dan y mecanwaith cwota rhyw.

**26.** Cyfrannodd Janet Finch Saunders AS at sesiwn lle bu Aelodau dethol yn myfyrio ar eu taith i fyd gwleidyddiaeth, ac yn siarad am gael eu hannog ac annog menywod eraill i gymryd rhan ym mywyd etholedig, yn ogystal â'r sefyllfa yn y Senedd o ran cael Llywydd benywaidd a chawcws menywod bywiog.

**27.** Cyd-gadeiriodd Rhianon Passmore AS sesiwn ar Strategaeth CWP Ryngwladol, lle trafododd aelodau sut i ddenu a chadw menywod mewn rolau gwleidyddol a sut mae materion allweddol o ddiddordeb i seneddwyr benywaidd yn cael eu cynnwys yng Nghynadleddau Seneddol y Gymanwlad. Mae adroddiad llawn o'r gynhadledd yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd gan ysgrifenyddiaeth Seneddwragedd y Gymanwlad.

**28.** Mae enw da rhyngwladol y Cawcws yn parhau i dyfu, gyda diweddariadau ar ein gwaith yn ymddangos yng nghyfnodolyn Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, The Parliamentarian, a dirprwyaethau rhyngwladol yn mynegi diddordeb mewn clywed gan ein haelodau.

**29.** Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU, cyfrannodd Cawcws Menywod y Senedd at sesiwn a arweiniwyd gan Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad a Chymdeithas Fawcett a edrychodd ar arferion gorau o ranbarth Ynysoedd Prydain, Iwerddon a Môr y Canoldir i hybu'r syniad o sefydlu Cawcws Menywod yn San Steffan.

**30.** Mae'r Cawcws wedi bod yn rhan o nifer o ymweliadau mewnol â'r Senedd eleni, wrth i ddirprwyon sy'n ymweld geisio dysgu am brofiadau seneddwyr benywaidd yng Nghymru a rhannu arferion da ynghylch annog menywod i gymryd rhan ac aros ym myd gwleidyddiaeth. Cyfarfu aelodau'r Cawcws yn ddiweddar â dirprwyaethau gwadd o Senedd Ffederal Canada ac Assemblée Nationale du Quebec i gyfnewid syniadau am gawcysau, seneddau sy'n ystyriol o deuluoedd, a mesurau cydraddoldeb rhywiol.

## Edrych tua'r dyfodol

**31.** Bydd y Cawcws yn cyfarfod yn nhymor yr hydref i gytuno ar ei adroddiad blynyddol cyntaf a rhannu diweddariadau gan eu rhwydweithiau.

**32.** Bydd y Cawcws hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i ddeall y camau sy'n cael eu cymryd i annog amrywiaeth a gwell cynrychiolaeth gan fenywod yn etholiad 2026 ar ôl i'r Llywodraeth dynnu Bil Senedd Cymru (Ymgeiswyr Etholiadol) yn ôl.

**33.** O edrych tua'r dyfodol, bydd y Cawcws yn ceisio parhau i ddatblygu ei rwydwaith rhyngwladol i ddysgu arferion gorau a meithrin cysylltiadau, yn ogystal ag adeiladu ar ei waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'i genhadaeth i gefnogi cyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth.